**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024**

Cystadleuaeth 135 – Grŵp Llefaru dan 25 oed

## Owain Glyndŵr – Idris Reynolds

Yn bobol wâr aeth ein bloedd
Yn rhy neis. Mae'r hen oesoedd
Yn ddistaw yn ein hawen,
Mor ddi-drais yw llais ein llên
Yng nghynghanedd ddifeddwl
Henfro ffug y Gymru gŵl.

O dref i dref mud yw'r iaith,
Ond oeda mewn stadudiaith.
Hogiau o uwch-swyddogion
A'u bow-wow sydd bia hon,
Yr hogiau hynny ragor
A ddwed, '*Don't mention the war*'.

Roedd Cymru y canu caeth
Yn ddynion, yn farddoniaeth,
Yn gyhyrog o eiriau,
A'r beirdd, o Bennal i'r Bae,
Yn drwm gan drawiadau'r un
Anrheithiodd gastell Rhuthun.

Er inni i gyd droi hen go'
Yn daeogrwydd di-*aggro,*
Yn odlau'r cywydd gwaedlyd
Mae angen Hyddgen o hyd,
Rhyw Harri Webb neu R.S.
I unioni'r hen hanes.

Mewn gwlad ddiganiad, ddi-gog
A'i hyder mor dawedog,
Oedaf ym mro'i thraddodiad,
O lys i lys crwydraf wlad
yn glaf am Gymru'r tafod
A Glyndŵr i'w glannau'n dod.

---

**Gyda chaniatâd caredig Idris Reynolds**